



PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 28 GORFFENAF 2021

PWNC

DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2020/21

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

- **Derbyn llythyr Archwilio Cymru ynghylch Datganiad Blynyddol y PPC 2020/21**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Archwiliedig ar gyfer 2020/21**
- **Nodi'r Datganiad o Gyfrifon llawn Heb ei Archwilio ar gyfer 2020/21**

RHESYMAU:

Mae angen cwblhau Datganiad Blynyddol ar gyfer 2020/21.

Mae adrannau Datganiadau Cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Datganiad Blynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Lletya ac mae Adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ac amgaeir eu llythyr. Mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi llunio Datganiad o Gyfrifon llawn i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2020/21. Mae hwn er gwybodaeth yn unig ac nid oes angen iddo gael ei archwilio.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Caerfyrddin

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost: CMoore@sirgar.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 28 GORFFENAF 2021

DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2020/21

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Ar gyfer cydbwyllgorau ag incwm a gwariant sy'n is na £2.5 miliwn, rhaid i gyfrifon gael eu paratoi ar ffurf datganiad blynyddol. Costau Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2020/21 yw £706m.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei rannu'n adrannau fel a ganlyn:

1. Datganiad Cyfrifyddu 2020/21 – gan gynnwys datganiad o incwm a gwariant / derbynebaw a thaliadau a datganiad o falansau
2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol
3. Cymeradwyaeth ac ardystiad gan y pwyllgor
4. Tystysgrif ac adroddiad archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru
5. Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol

Mae adrannau 1 a 2 uchod wedi cael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lletya yn unol ag arferion dilys fel a nodir yn y Canllaw i Ymarferwyr. Mae adran 5 wedi cael ei chwblhau gan Adran Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lletya. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei harchwilio gan Archwilio Cymru.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi paratoi Datganiad o Gyfrifon llawn i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2020/21. Nid yw'r Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fydd yn cael ei archwilio. Mae wedi cael ei baratoi er gwybodaeth yn unig, er mwyn ategu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau DIM	Cyfreithiol OES	Cyllid OES	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Cyfreithiol Cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.				
Cyllid Cost net gweithgareddau Partneriaeth Pensiynau Cymru oedd £706m, sef tâl a gafodd ei ailgodi i'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma.

**Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

MANYLIR AR Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod y Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN
Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014		Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin